# PA1P — Gwneud cais am brofiant

## Mae'r ffurflen hon ar gyfer gwneud cais pan fydd yr unigolyn sydd wedi marw **wedi gadael ewyllys**

**Rhestr wirio – cyn ichi anfon eich ffurflen gais i Adran Brofiant GLlTEF, bydd angen i chi amgáu'r canlynol. Rhaid cwblhau'r rhestr wirio hon. Os nad ydych yn amgáu'r holl ddogfennau angenrheidiol, bydd hynny'n arafu'r broses o ymdrin â'ch cais. Dylech gadw copïau o'r holl ddogfennau rydych yn eu hanfon.**

- ☐ PA1P – Gwneud cais am brofiant (y ffurflen hon) – pan fydd yr unigolyn sydd wedi marw wedi gadael ewyllys.
- ☐ Ffurflen Crynodeb Treth Etifeddiant: Mae'n rhaid i chi amcangyfrif gwerth yr ystad cyn llenwi'r ffurflen hon. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd yn arafu'r broses o ymdrin a'ch cais.
- ☐ Yr ewyllys wreiddiol olaf ac unrhyw godisiliau a wnaed ers yr ewyllys honno.
- ☐ Copi o unrhyw ewyllysiau tramor neu unrhyw ewyllysiau sy'n delio ag asedau a ddelir y tu allan i Gymru a Lloegr (ac os nad ydynt yn Saesneg, cyfieithiad Saesneg).
- ☐ Copi swyddogol (**nid** llungopi) o'r dystysgrif marwolaeth, neu dystysgrif marwolaeth interim gan y crwner ar gyfer yr unigolyn sydd wedi marw (Nid yw hyn yn ofynnol i weithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith).
- ☐ Unrhyw ddogfennau eraill y gofynnir amdanynt yn y ffurflen hon. Gofynnir ichi eu rhestru yma:

[ ]

Yn ogystal â'r ffi am wneud cais, codir ffi am bob copi swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth a ddarparwn.

Faint o gopïau swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth sydd eu hangen arnoch i'w defnyddio **yn** y Deyrnas Unedig? [ ]

Faint o gopïau swyddogol o'r Grant Cynrychiolaeth sydd eu hangen arnoch i'w defnyddio **y tu allan** i'r Deyrnas Unedig? [ ]

Ffi am wneud cais £

Ffi am wneud copïau £

**Cyfanswm ffioedd** £

☐ Siec/archeb bost yn daladwy i **'GLlTEF'** mewn perthynas â ffioedd GLlTEF. Ysgrifennwch enw'r unigolyn sydd wedi marw ar gefn y siec.

Ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith

☐ Os oes gennych rif Trosglwyddiad Cyfrif, nodwch beth ydyw yma

[ ]

Os oes arnoch angen cymorth i lenwi'r ffurflen hon ffoniwch:

**Llinell Gymorth Profiant**
**0300 303 0654**

Ni allwn roi cyngor cyfreithiol

**A wyddoch bod modd i chi wneud cais am Brofiant ar-lein?**

Ewch i www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant/gwneud-cais-am-brofiant

**Nodyn Rhestr wirio - Ewyllys Wreiddiol**

Bydd GLlTEF yn cadw'r Ewyllys wreiddiol gan y bydd wedyn yn ddogfen gyhoeddus. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid inni gadw'r ewyllys pan gymeradwyir cais am brofiant i Ysgutor.

**Codisil**

Dogfennau ychwanegol yw'r rhain sy'n diweddaru'r Ewyllys.

**Peidiwch ag atodi** unrhyw beth neu ddileu unrhyw beth o'r ewyllys wreiddiol/codisiliau. Hefyd, cofiwch gadw copi ar gyfer chi eich hun.

**Dogfennau eraill** - Dylech nodi yma os ydych yn gwneud cais i Grant a gafwyd mewn gwlad dramor gael ei selio gan Gofrestrfa Brofiant y Dosbarth i'w ddefnyddio yng Nghymru a Lloegr.

Nodwch yma faint o gopïau ychwanegol o'r Grant sydd eu hangen arnoch i'w defnyddio yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn ychwanegol at y Grant Cynrychiolaeth sydd wedi'i gynnwys yn y ffi am wneud cais.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am ffioedd a ble i anfon eich dogfennau yn https://www.gov.uk/guidance/apply-for-probate-on-paper-as-a-practitioner.cy



© Hawlfraint y Goron 2024

## ADRAN A – GWYBODAETH BERSONOL

### 1. **Manylion y ceisydd (ceiswyr)** – Rhaid i bob ceisydd fod dros 18 oed a gall uchafswm o 4 ceisydd wneud cais

**1.1** Teitl ac enw llawn, yn cynnwys enwau canol y **ceisydd cyntaf**

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**1.2** A yw enw'r **ceisydd cyntaf** yn wahanol yn yr ewyllys a'r codisil?

☐ Ydy, nodwch yr enw fel y mae'n ymddangos yn yr ewyllys neu'r codisil yn y blwch isod

☐ Nac ydy

**1.3** A oes yna unrhyw wahaniaethau eraill yn yr ewyllys, megis bod olynydd wedi'i benodi?

☐ Oes, rhowch y manylion yn y blwch isod

☐ Nac oes

**Defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU a thiciwch y blychau sy'n berthnasol.**

**Nodyn 1.1 - Ceisydd Cyntaf**

Os ydych yn gwneud cais ar y cyd, fe enwebir y ceisydd cyntaf gan yr holl geiswyr i wneud y cais ar eu rhan.

Fe anfonir yr holl ohebiaeth, gan gynnwys y Grant Cynrychiolaeth at y ceisydd cyntaf neu'ch cynrychiolydd cyfreithiol, os enwir ef/hi.

Rhestrwch y ceiswyr sy'n dymuno cael eu henwi ar y grant yn unig yn yr adran hon.

Bydd rhaid iddynt lofnodi'r datganiad yn Adran B. Nodwch fod rhaid i'r enwau a ddarperir gennych yma gyfateb i'r enwau sydd ar ddogfennau adnabod y ceisydd, megis pasbort neu drwydded yrru.

Nid oes rhaid i chi anfon y dogfennau hyn gyda'ch cais.

Os yw'r ceisydd yn gwmni neu'n gorfforaeth, rhowch yr enw llawn yn y blwch 'Enw(au) cyntaf'.

Pan nad oes ysgutor yn gwneud cais a bod unigolion o dan 18 oed yn cael budd o'r ystad, yna bydd angen nodi manylion dau geisydd (neu o leiaf dau) yn Adran A. Efallai y byddwch eisiau cysylltu ag Adran Brofiant GLITEF i ofyn am wybodaeth ynghylch pwy sy'n gymwys i wneud cais.

Os ydych yn gwneud cais ar ran ysgutor sydd ag atwrneiaeth, dylech roi eich manylion chi yn Adran A a'u manylion nhw yn Adran 5 y ffurflen hon.

**1.4** Cyfeiriad y ceisydd cyntaf

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**1.5** Rhif ffôn cartref y ceisydd cyntaf

**1.6** Rhif ffôn symudol/gwaith y ceisydd cyntaf

**1.7** Cyfeiriad e-bost y ceisydd cyntaf

**Nodyn 1.7** – byddwn yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost i anfon diweddariadau atoch am eich cais.

**1.8** Teitl ac enw llawn, yn cynnwys enwau canol yr **ail geisydd**

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**Nodyn 1.8** – Os yw'r ceisydd yn gwmni neu'n gorfforaeth, rhowch yr enw llawn yn y blwch 'Enw(au) cyntaf'

**1.9** A yw enw'r **ail geisydd** yn wahanol yn yr ewyllys a'r codisil?

☐ Ydy, nodwch yr enw fel y mae'n ymddangos yn yr ewyllys neu'r codisil yn y blwch isod

☐ Nac ydy

**1.10** Cyfeiriad yr ail geisydd

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**1.11** Cyfeiriad e-bost yr ail geisydd

**1.12** Teitl ac enw llawn, yn cynnwys enwau canol y **trydydd ceisydd**

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**1.13** A yw enw'r **trydydd ceisydd** yn wahanol yn yr ewyllys a'r codisil?

☐ Ydy, nodwch yr enw fel y mae'n ymddangos yn yr ewyllys neu'r codisil yn y blwch isod

☐ Nac ydy

**1.14** Cyfeiriad y trydydd ceisydd

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**1.15** Cyfeiriad e-bost y trydydd ceisydd

**1.16** Teitl ac enw llawn, yn cynnwys enwau canol y **pedwerydd ceisydd**

Teitl

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**1.17** A yw enw'r **pedwerydd ceisydd** yn wahanol yn yr ewyllys a'r codisil?

☐ Ydy, nodwch yr enw fel y mae'n ymddangos yn yr ewyllys neu'r codisil yn y blwch isod

☐ Nac ydy

**1.18** Cyfeiriad y pedwerydd ceisydd

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**1.19** Cyfeiriad e-bost y pedwerydd ceisydd

**1.20** A oes gennych chi gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar eich rhan?

- [ ] Oes, rhowch y manylion isod
- [ ] Nac oes, **ewch i Adran B**

Enw'r cynrychiolydd cyfreithiol

Enw cwmni'r cynrychiolydd cyfreithiol

Cyfeirnod

Cyfeiriad

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

**Nodyn 1.20 –** Mae cynrychiolydd cyfreithiol naill ai'n gyfreithiwr neu'n unigolyn proffesiynol o fath arall sydd wedi'i drwyddedu a'i awdurdodi gan ei gorff llywodraethu i ymgymryd â swyddogaethau gwasanaeth cyfreithiol profiant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007.

## ADRAN B

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon yn sail i'ch datganiad gwirionedd, a chaiff ei chadw fel cofnod cyhoeddus.

Os oes arnoch angen cymorth i lenwi'r ffurflen hon ffoniwch:

**Llinell Gymorth Profiant**
**0300 303 0654**

Ni allwn roi cyngor cyfreithiol

### 2. Dywedwch wrthym am yr unigolyn sydd wedi marw

**2.1** Enw(au) cyntaf (gan gynnwys pob enw canol) fel y maent yn ymddangos ar y Dystysgrif Marwolaeth

**2.2** Cyfenw fel y mae'n ymddangos ar y Dystysgrif Marwolaeth

**2.3** Cyfeiriad parhaol

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**2.4** Dyddiad geni

**2.5** Dyddiad marwolaeth

**Nodyn 2.4 a 2.5** – Mae'r dyddiadau hyn i'w gweld ar y Dystysgrif Marwolaeth neu Dystysgrif y Crwner.

**2.6** A oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn cael ei adnabod wrth unrhyw enw arall y byddai wedi'i ddefnyddio i ddal asedau?

☐ Oedd, **ewch i gwestiwn 2.7**

☐ Nac oedd, **ewch i gwestiwn 2.8**

**2.7** Rhowch fanylion unrhyw enwau eraill yr oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn eu defnyddio i ddal asedau.

| Enw llawn |
| --- |
| |

**2.8** A oedd yr unigolyn a fu farw yn byw yn barhaol yng Nghymru a Lloegr ar ddyddiad eu marwolaeth, neu'n bwriadu dychwelyd i Gymru a Lloegr i fyw'n barhaol? (I ddibenion cyfreithiol, golyga hyn bod eu domisil yng Nghymru a Lloegr. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol ynghylch hyn.)

- ☐ Oedd
- ☐ Nac oedd

**2.9** Beth oedd statws priodasol yr unigolyn sydd wedi marw adeg eu marwolaeth?

- ☐ Erioed wedi priodi
- ☐ Gweddw, ei b/phriod neu ei b/phartner sifil cyfreithlon wedi marw ynghynt
- ☐ Wedi priodi/mewn partneriaeth sifil - nodwch y dyddiad

  |_|_|_|_|_|_|_|_|

- ☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi diddymu - nodwch y dyddiad

  |_|_|_|_|_|_|_|_|

- ☐ Ymwahaniad cyfreithiol – nodwch y dyddiad

  |_|_|_|_|_|_|_|_|

**2.10** Beth yw enw'r llys lle y cyhoeddwyd y Dyfarniad Absoliwt, y Dyfarniad Diddymu Partneriaeth neu'r Dyfarniad Ymwahaniad Cyfreithiol?

 

**2.11** A oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn berchen ar unrhyw asedau tramor?

- ☐ Oedd, cyfanswm gwerth eu hasedau tramor (heb gynnwys tai neu dir) yw

  £

- ☐ Nac oedd

**Nodyn 2.7** - Rhaid i'r enwau hyn fod yn rhai a fydd yn ymddangos ar y grant oherwydd bod ased yn yr enw hwnnw.

Nid ydym angen gwybod manylion yr ased.

**Nodyn 2.8** – Ystyr byw'n barhaol yw bod cartref parhaol yr unigolyn a fu farw yng Nghymru a Lloegr neu fod eu prif gartref yno ar ddyddiad eu marwolaeth neu eu bod yn bwriadu dychwelyd i Gymru a Lloegr i fyw'n barhaol.

**Nodyn 2.9 –**

**Partneriaeth sifil**

Partneriaeth sifil yw perthynas sydd wedi'i chofrestru yn unol â Deddf Partneriaeth Sifil 2004 neu Ddeddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru ayb) 2019.

**Wedi priodi**

Mae priodas yn seremoni gyfreithiol a gynhelir yn y DU o dan Ddeddfau Priodasau 1949, 1994 a Deddf Priodasau (Priodasau o'r Un Rhyw) 2013 neu seremoni a gynhelir mewn unrhyw wlad arall dan y gyfraith sy'n gymwys yno.

**Dyddiad yr ysgariad**

Mae'r dyddiad hwn ar eu Dyfarniad Absoliwt, Dyfarniad Diddymu'r Bartneriaeth neu'r Dyfarniad Ymwahaniad Cyfreithiol. Gallwch gael copi swyddogol o'r dogfennau hyn o'r llys a'u cyhoeddodd, neu drwy fynd i https://www.gov.uk/copy-decree-absolute-final-order

**2.12** A oedd unrhyw dir wedi'i freinio yn yr unigolyn sydd wedi marw a setlwyd cyn eu marwolaeth ac a oedd dal yn dir a setlwyd er gwaethaf eu marwolaeth?

☐ Oedd

☐ Nac oedd

**Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os nad oes ysgutor i'r ewyllys yn gwneud cais**

**2.13** A gafodd yr unigolyn sydd wedi marw neu unrhyw un o'i berthnasau eu mabwysiadu'n gyfreithlon i'r teulu neu o'r teulu?

☐ Do, **gweler nodyn 2.13**

☐ Naddo, **ewch i gwestiwn 3**

**2.14** Nodwch enwau'r perthnasau sydd wedi'u mabwysiadu'n gyfreithlon a'u perthynas â'r unigolyn sydd wedi marw. Nodwch a gawsant eu mabwysiadu i mewn i deulu'r unigolyn sydd wedi marw, neu eu 'mabwysiadu allan' (wedi ymuno â theulu rhywun arall).

| Enw | Perthynas | Wedi'u mabwysiadu **i mewn** ynteu **allan** o'r teulu |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Dim ond gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith ddylai ateb cwestiwn 2.15 a chwestiwn 2.16**

**2.15** Math o gais

**2.16** Nodwch y rhesymau dros wneud y cais ac unrhyw wybodaeth berthnasol

**2.17** Ydych chi angen grant dwyieithog Cymraeg/Saesneg?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**Nodyn 2.12 –** Mae'n anghyffredin i ystadau fod yn destun darpariaethau Deddf Tir Setledig 1925, ond os gwyddoch fod y ddeddf hon yn berthnasol neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, yna ceisiwch gyngor cyfreithiol.

**Nodyn 2.13** – Os bu ichi ateb Do i'r cwestiwn hwn, efallai y bydd angen ichi gyflwyno gwybodaeth ychwanegol unwaith y byddwn wedi cael eich cais.

**Nodyn 2.14 –** Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i wirio pwy sy'n gymwys i wneud y cais.

Bydd yr wybodaeth hon yn gofnod cyhoeddus unwaith y bydd profiant wedi'i ganiatáu.

**Nodyn 2.15 –** Os nad ydych yn gwneud cais am brofiant neu os oes cyfyngiadau'n berthnasol i'r cais e.e. Ailselio, Profiant Dwbl, *De bonis* non, yna nodwch fanylion y math o grant y gwneir cais amdano a manylion y rhesymau dros wneud y cais ac unrhyw wybodaeth berthnasol (e.e. manylion y cyfyngiadau) yng nghwestiwn 2.16.

Cyfeiriwch at Tristram & Cootes am arweiniad ynghylch yr wybodaeth sydd ei hangen a'r geiriad y dylid ei ddefnyddio.

Anfonwch eich holl dystiolaeth gefnogol gyda'r cais hwn.

.

## 3. **Yr ewyllys ac unrhyw godisiliau –** Mae'r adran hon yn ymwneud â'r ewyllys. Mae'n rhaid ichi gyflwyno'r ewyllys wreiddiol olaf ac unrhyw godisiliau a wnaed ers yr ewyllys honno, os oes rhai.

**3.1** Beth yw dyddiad yr ewyllys yr ydych yn ei chyflwyno i'r llys?

[ ][ ] [ ][ ] [ ][ ][ ][ ]

**3.2** A wnaeth yr unigolyn sydd wedi marw hefyd adael unrhyw godisiliau a wnaed ers yr ewyllys honno?

☐ Do, **darparwch y ddogfen wreiddiol/dogfennau gwreiddiol gyda'ch cais a rhestrwch isod ddyddiadau'r codisiliau yr ydych yn eu cyflwyno i'r llys.**

[ ][ ] [ ][ ] [ ][ ][ ][ ]

[ ][ ] [ ][ ] [ ][ ][ ][ ]

[ ][ ] [ ][ ] [ ][ ][ ][ ]

[ ][ ] [ ][ ] [ ][ ][ ][ ]

[ ][ ] [ ][ ] [ ][ ][ ][ ]

☐ Naddo

**3.3** A oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw unrhyw ewyllysiau a wnaed y tu allan i Gymru a Lloegr?

☐ Oedd

☐ Nac oedd

**3.4** A wnaeth yr unigolyn sydd wedi marw briodi neu ymrwymo i Bartneriaeth Sifil ar ôl dyddiad yr ewyllys neu unrhyw godisiliau?

☐ Do, nodwch ddyddiad y briodas neu'r bartneriaeth sifil

[ ][ ] [ ][ ] [ ][ ][ ][ ]

☐ Naddo

**Nodyn 3 –** Nid oes rhaid i ewyllys fod yn ddogfen ffurfiol. Sicrhewch eich bod yn anfon yr ewyllys wreiddiol gyda'ch cais. Os na wnewch chi hyn, bydd yn oedi'r broses o ddelio â'ch cais.

Os nad ydych wedi llwyddo i ddod o hyd i'r ewyllys wreiddiol neu unrhyw godisiliau er eich bod wedi gwneud popeth y gallwch i ddod o hyd iddynt, ac os mai copi yn unig sydd gennych, ewch i www.gov.uk/government/publications/ form-pa13-lost-will-questionnaire i argraffu ffurflen PA13 neu ffoniwch 0300 303 0654 a dyfynnu 'Ewyllys coll' a gallwn roi gwybodaeth bellach i chi am sut i barhau â'ch cais.

**Nodyn 3.2** – codisil yw dogfen sy'n amrywio ewyllys.

**Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os nad oes ysgutor i'r ewyllys yn gwneud cais**

**3.5** A oes unrhyw un o dan 18 oed yn cael rhodd yn yr ewyllys neu godisil?

☐ Oes, **Noder y bydd angen nodi manylion dau geisydd yn Adran A. Cysylltwch ag Adran Brofiant GLITEF i wirio pwy sy'n gymwys i wneud y cais.**

| Enw'r buddiolwr | Dyddiad geni'r buddiolwr | Enw'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

☐ Nac oes

**Nodyn 3.5** – Mae gan bob mam a'r mwyafrif o dadau hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau fel rhiant; gelwir hyn yn 'cyfrifioldeb rhiant'.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/parental-rights- responsibilities

**3.6** Nodwch enw unrhyw ysgutorion **nad ydynt** yn gwneud y cais hwn, ac esboniwch pam.

**Rhesymau dros ysgutorion yn peidio â gwneud cais:**

**A** – Buont farw cyn yr unigolyn sydd wedi marw.

**B** – Buont farw ar ôl yr unigolyn sydd wedi marw (nodwch y dyddiad y bu iddynt farw wrth eu henw).

**C** – Cadw'r hawl: maent wedi dewis peidio â gwneud cais, ond maent yn cadw'r hawl i wneud hynny nes ymlaen.

**D** – Ymwrthodiad: maent wedi dewis peidio â gwneud cais, ac yn rhoi'r gorau i bob hawl i wneud cais. (Cyn i chi anfon eich cais, darllenwch **NODYN RHESWM D)**

**E** – Atwrneiaeth: maent wedi penodi neu'n dymuno penodi unigolyn arall i weithredu fel eu hatwrnai i gymryd Grant Cynrychiolaeth ar eu rhan (bydd angen i chi hefyd lenwi Adran 5 y cais hwn). (Cyn i chi anfon eich cais, **darllenwch NODYN RHESWM E)**

**F** – Nid oes ganddynt alluedd i weithredu fel ysgutor

| Enw(au) llawn yr ysgutor(ion) **nad ydynt** yn gwneud cais | A, B, C, D, E neu F |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**Nodyn 3.6 –** Ysgutor yw'r unigolyn cyntaf a all wneud cais am grant.

Rydym angen gwybod pam nad yw unrhyw ysgutorion yn cael eu cynnwys yn y cais hwn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ysgutorion sydd wedi marw. **Os na fyddwch yn darparu'r holl wybodaeth bydd hyn yn arafu'r broses o ymdrin â'ch cais.**

**Rheswm C**

Os yw unrhyw ysgutor yn cadw'r hawl, **rhaid** i chi roi gwybod iddynt yn ysgrifenedig am y cais. Dim ond i'r bobl hynny a enwir yn geiswyr yn Adran A y rhoddir y Grant Cynrychiolaeth.

**Rheswm D**

Os ydych yn datgan bod ysgutor wedi rhoi'r gorau i bob hawl i wneud cais.Bydd angen i ni anfon ffurflen arall atoch i'w rhoi i'r ysgutor, er mwyn iddynt ei llofnodi.

Ewch i www.gov.uk/government/publications/form-pa15-apply-for-renunciation-will) i argraffu ffurflen Ymwrthod PA15 neu ffoniwch 0300 303 0654 a dyfynnu 'Ymwrthod' ac mi anfonwn y ffurflen atoch.

Bydd angen i chi anfon y ffurflen ymwrthod atom gyda'r cais hwn.

**Rheswm E**

Os ydych yn datgan bod ysgutor yn dymuno penodi atwrnai neu fod ganddynt atwrnai yn barod. Bydd angen i ni anfon ffurflen arall atoch i'r ysgutor ei llofnodi, neu bydd angen ichi ddarparu un o'r ffurflenni y mae sôn amdanynt yn Adran 5.

Ewch i www.gov.uk/government/publications/form-pa11-apply-for-power-of-attorney-willi argraffu ffurflen atwrnai PA11 neu ffoniwch 0300 303 0654 a dyfynnu 'Atwrnai' ac mi anfonwn y ffurflen atoch.

Bydd angen ichi anfon y ffurflen atwrnai atom gyda'r cais hwn. Ni chaiff atwrnai un ysgutor ac ysgutor sy'n gweithredu eu hunain wneud cais ar y cyd am Grant Cynrychiolaeth.

**Rheswm F**

Os byddwch yn datgan nad oes gan ysgutor alluedd ac na all reoli ei eiddo a'i faterion ariannol, pan fyddwn yn cael y cais hwn, efallai y byddwn yn anfon tystysgrif feddygol at feddyg yr ysgutor i'w llofnodi. Os nad oes gennych dystiolaeth feddygol eisoes gan ymarferwr cymwys neu os ydych yn defnyddio Atwrneiaeth Arhosol gofrestredig, bydd angen math byr o dystiolaeth feddygol.

Ewch i www.gov.uk/government/publications/form-pa14-medical-certificate-probate i argraffu ffurflen PA14 tystysgrif feddygol neu ffoniwch 0300 303 0654 a dyfynnu tystiolaeth feddygol ac mi wnawn anfon y ffurflen atoch.

Bydd angen ichi anfon y dystysgrif feddygol atom gyda'r cais hwn.

**3.7** ☐ Mae'r sawl sy'n llofnodi isod yn datgan bod hysbysiad ysgrifenedig wedi'i roi i bob ysgutor sydd yn cadw'r hawl ac nad ydynt yn gwneud y cais hwn.

Os byddwch yn methu â rhoi rhybudd ysgrifenedig, mae'n debyg y bydd yn arafu'r broses o ymdrin â'ch cais.

**3.8** A oes yna unrhyw beth am yr ewyllys yr hoffech dynnu sylw ato, megis cyflwr yr ewyllys, neu os yw'r tudalennau wedi'u gwahanu, pam, gan bwy a phryd?

☐ Oes - rhowch y manylion yn y blwch isod

☐ Nac oes

**3.9** A allwch chi gadarnhau bod yr ewyllys yn cynnwys y tudalennau sydd nawr yn cael eu cyflwyno ac nad oedd unrhyw dudalennau neu ddogfennau eraill o natur ewyllysiol neu natur arall wedi'u hatodi?

☐ Gallaf

☐ Na allaf

**Nodyn 3.8** – Er enghraifft, os cafodd tudalennau'r ewyllys eu gwahanu at ddibenion llungopïo ac yna eu styffylu eto, eglurwch pam y gwnaethpwyd hyn, pryd cafodd hyn ei wneud a gan bwy.

## 4. Perthnasau'r unigolyn a fu farw

**4.1** A wnaeth yr unigolyn sydd wedi marw adael priod neu bartner sifil sy'n eu goroesi?

☐ Do

☐ Naddo

**Nodyn 4.1** – Ystyr 'goroesi' ydy eu bod yn fyw pan fu farw'r unigolyn sydd wedi marw.

**4.2** Faint o'r perthnasau trwy waed a pherthnasau mabwysiadol canlynol oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw?

| | | O dan 18 oed | Dros 18 oed |
|---|---|---|---|
| **a** | Faint o feibion neu ferched yr unigolyn a fu farw wnaeth ei oroesi? | | |
| **b** | Faint o feibion neu ferched yr unigolyn sydd wedi marw na wnaeth ei oroesi? | | |
| **c** | Faint o blant y bobl a nodwyd yn 'b' wnaeth ei oroesi? | | |

**Nodyn 4.2 –** Nodwch **faint** o berthnasau a oedd gan yr unigolyn sydd wedi marw yn y blychau perthnasol.

Os nad oes perthnasau, nodwch dim neu rhowch linell drwyddo.

**4.3** Nodwch berthynas pob unigolyn sy'n gwneud cais am y grant â'r unigolyn sydd wedi marw. (Os ydych yn gwneud cais fel atwrnai ar ran rhywun arall, yna rhowch atwrnai)

Disgrifiad o'r berthynas

Ceisydd cyntaf

[ ]

Ail geisydd

[ ]

Trydydd ceisydd

[ ]

Pedwerydd ceisydd

[ ]

**Nodyn 4.3** – Er enghraifft, os yw'r ceisydd yn briod neu'n bartner sifil yr unigolyn sydd wedi marw, rhowch 'priod' neu 'partner sifil'.

Os ydych yn gwneud cais fel atwrnai ar ran rhywun arall, yna rhowch atwrnai.

Cyfeirnod corfforaeth ymddiriedolaeth

[ ]

Os ydych yn gwneud cais ar ran corfforaeth ymddiriedolaeth, nodwch y cyfeirnod.

Os cafodd ei ffeilio yn y llys, nodwch y dyddiad ac enw'r gofrestrfa

[ ]

## 5. Gwneud cais fel atwrnai

**5.1** A ydych yn gwneud cais fel atwrnai ar ran un neu fwy o'r bobl sydd â hawl i wneud cais am Grant Cynrychiolaeth?

☐ Ydw**, ewch i gwestiwn 5.2**

☐ Nac ydw, **ewch i adran 6**

**5.2** Rhowch enw(au) llawn yr unigolyn neu'r unigolion yr ydych yn gwneud cais ar eu rhan.

**5.3** Rhowch eu cyfeiriad

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**5.4** A yw unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran yn methu â gwneud penderfyniad ei hun oherwydd nam neu ymyrraeth â gweithrediad ei feddwl neu ei ymennydd?

☐ Ydy, bydd Adran Brofiant GLlTEF yn gofyn am gadarnhad pellach o hyn.

☐ Nac ydy

**5.5** A oes unrhyw un wedi'i benodi gan y Llys Gwarchod i weithredu ar ran unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran, yn cynnwys yr hawl i wneud cais am Grant Cynrychiolaeth?

☐ Oes, **darparwch gopi swyddogol o'r gorchymyn llys gyda'ch cais**

☐ Nac oes

**Nodyn 5 –** Os ydych yn gwneud cais ar ran mwy nag un unigolyn, rhowch yr wybodaeth y gofynnir amdani yn yr adran hon ar gyfer y bobl eraill yr ydych yn eu cynrychioli ar ddalen ar wahân. Efallai y bydd angen i ni anfon ffurflen arall atoch i'r ysgutor ei llofnodi, neu bydd angen ichi ddarparu un o'r ffurflenni y mae sôn amdanynt yn yr adran hon.

Ewch i https://www.gov. uk/ government/publications/ form-pa11-apply-for-power- of-attorney-will i argraffu ffurflen PA11 neu ffoniwch 0300 303 0654 a dyfynnu 'Atwrnai' ac mi wnawn anfon y ffurflen atoch.

Bydd angen ichi anfon y ffurflen atwrnai wedi'i llofnodi atom gyda'r cais hwn.

Ni chaiff atwrnai un ysgutor ac ysgutor sy'n gweithredu eu hunain wneud cais ar y cyd am Grant Cynrychiolaeth.

Os oes unigolion o dan 18 oed yn cael budd o'r ystad, yna bydd angen nodi manylion dau geisydd (neu o leiaf dau) yn Adran A. Efallai y byddwch eisiau cysylltu ag Adran Brofiant GLlTEF i ofyn am wybodaeth ynghylch pwy sy'n gymwys i wneud cais.

**Nodyn 5.4 –** Mae hyn yn berthnasol os oes ganddynt ddiffyg galluedd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac os nad ydynt yn gallu rheoli eu heiddo a'u materion ariannol. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol am hyn. Os nad oes gennych dystiolaeth feddygol eisoes gan ymarferydd cymwys neu os ydych yn defnyddio Atwrneiaeth Arhosol (LPA) neu Atwrneiaeth Barhaus (EPA) gofrestredig, bydd angen math byr o dystiolaeth feddygol.

Ewch i www.gov.uk/ government/publications/ form-pa14-medical- certificate-probate i argraffu ffurflen PA14 tystysgrif feddygol neu ffoniwch 0300 303 0654 a dyfynnu 'tystiolaeth feddygol' ac mi wnawn anfon y ffurflen atoch.

**5.6** A yw unigolyn yr ydych yn gwneud cais ar ei ran wedi penodi atwrnai fel rhan o Atwrneiaeth Barhaus (EPA) neu Atwrneiaeth Arhosol (LPA) Eiddo a Materion Ariannol?

☐ Ydy, **darparwch yr EPA/LPA wreiddiol (neu gopi ardystiedig gan gyfreithiwr sydd wedi'i ardystio ar bob tudalen) gyda'ch cais**

☐ Nac ydy, **ewch i Adran 6**

**5.7** A yw'r Atwrneiaeth Barhaus (EPA) wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus?

☐ Ydy

☐ Nac ydy

## 6. Byw Dramor

**Sylwch – Os gwnaethoch ateb 'Oedd' i gwestiwn 2.8 nid oes angen i chi lenwi'r adran hon - ewch ymlaen i Adran 7.**

**6.1** Ym mha wlad yr oedd yr unigolyn a fu farw naill ai'n byw'n barhaol ar ddyddiad ei farwolaeth neu'n bwriadu dychwelyd i fyw'n barhaol?

**6.2** Beth mae ystad yr unigolyn sydd wedi marw yn cynnwys yng Nghymru a Lloegr?

| Asedau | Gwerth |
|---|---|
| | |

**Nodyn 6.3 a 6.4 –**

**Dogfen ymddiried** yw dogfen swyddogol a gyhoeddir gan y llys yn nomisil yr unigolyn a fu farw sy'n galluogi'r unigolyn/unigolion a enwir i gasglu'r ystad a'i gweinyddu yn yr un modd ac y mae ein grantiau cynrychiolaeth yn gwneud.

Mae **tystysgrif olynu** neu **dystysgrif etifeddu** yn ddogfen gyfreithiol a gyhoeddir gan amlaf gan lys sifil y tu allan i'r DU neu Notari Cyhoeddus sy'n cadarnhau pwy sydd â hawl i ystad yr unigolyn sydd wedi marw heb adael ewyllys.

Os nad oes gennych unrhyw un o'r dogfennau hyn, efallai y bydd arnoch eisiau ceisio cyngor cyfreithiol.

**6.3** A oes dogfen ymddiried wedi'i chyhoeddi gan y llys yn y wlad lle'r oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn byw?

☐ Oes, **darparwch y ddogfen swyddogol gyda'ch cais; os nad yw'n Saesneg, darparwch gyfieithiad swyddogol hefyd.**

**Ewch ymlaen i adran 7.**

☐ Nac oes

**6.4** A oes tystysgrif olynu, tystysgrif etifeddu neu ddogfen gyfatebol wedi'i chyhoeddi gan lys neu Notari yn y wlad lle'r oedd yr unigolyn sydd wedi marw yn byw?

☐ Oes, **darparwch y ddogfen swyddogol gyda'ch cais; os nad yw'n Saesneg, darparwch gyfieithiad swyddogol hefyd.**

☐ Nac oes

## 7. Treth etifeddiant

**7.1** A wnaeth yr unigolyn farw ar neu ar ôl 1 Ionawr 2022?

- ☐ Do. **Ewch i gwestiwn 7.2**
- ☐ Naddo. **Ewch i adran 8**

**7.2** Pa ffurflen wnaethoch chi lenwi?

- ☐ Nid oedd gofyn i mi gyflwyno unrhyw ffurflenni i HMRC. **Ewch i gwestiwn 7.3**

(Nid yw adnodd gwirio IHT yn ffurflen)

- ☐ IHT400. **Ewch i gwestiwn 7.6**
- ☐ IHT400 ac IHT421. **Ewch i gwestiwn 7.7**
- ☐ IHT207. **Ewch i gwestiwn 7.8**

**7.3** Darparwch y gwerthoedd canlynol o'r ystad ar gyfer treth etifeddiant

| | |
|---|---|
| gwerth gros yr ystad ar gyfer treth etifeddiant | £ |
| gwerth net yr ystad ar gyfer treth etifeddiant | £ |
| gwerth net cymwys yr ystad | £ |

**7.4** A ydych yn hawlio yn erbyn yr ystad hwn y gyfran o'r dreth etifeddiant band cyfradd sero nas defnyddiwyd gan ddiweddar briod neu bartner sifil yr unigolyn a fu farw?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw

**7.5** Darparwch werth gros a gwerth net yr ystad ar gyfer profiant

| | |
|---|---|
| gwerth gros yr ystad ar gyfer profiant | £ |
| gwerth net yr ystad ar gyfer profiant | £ |

**Ewch i Adran 9**

**Nodyn 7 -** Cyn y gallwch wneud cais am grant profiant mae angen ichi gyfrifo gwerth ystad yr unigolyn sydd wedi marw. Yna mae angen i chi dalu unrhyw Dreth Etifeddiant sy'n daladwy neu allu dangos nad oes Treth Etifeddiant i'w thalu.

Darllenwch sut i gyfrifo gwerth yr ystad a riportio ar ei werth i HMRC yn https://www.gov.uk/ valuing-estate-of-someone- who-died

**Nodyn 7.3 –** Fe ddarperir y gwerth gros, y gwerth net a'r gwerth net cymwys ar gyfer IHT os bu ichi ddefnyddio'r adnodd gwirio IHT yn https:// www. gov.uk/valuing-estate-of-value

**Nodyn 7.4 –** Atebwch y cwestiwn hwn dim ond os yw gwerth net cymwys yr ystad rhwng £325,000 a £650,000.

**Nodyn 7.5 –** Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddyd ar sut i gyfrifo'r gwerthoedd hyn yn https://www.gov.uk/ applying-for-probate/ beforeyou- apply

**7.6** Ydych chi wedi cael llythyr gan HMRC gyda'ch cod profiant unigryw?

☐ Do. Y cod yn y llythyr gan HMRC oedd

Y gwerthoedd ar gyfer profiant o'r llythyr gan HMRC

Gwerth gros £

Gwerth net £

**Ewch i Adran 9**

☐ Naddo. **Ewch i gwestiwn 7.7**

**7.7** Darparwch y rhifau o'r **IHT421**

Blwch 3 (gwerth gros) £

Blwch 5 (gwerth net) £

**Ewch i Adran 9**

**7.8** Darparwch y rhifau o'r **IHT207**

Blwch A (gwerth gros) £

Blwch H (gwerth net) £

**Ewch i adran 9**

**Nodyn 7.6 –** Fe anfonir y llythyr gan HMRC hyd at 20 diwrnod gwaith ar ôl i chi gyflwyno'r IHT400. Os nad ydych wedi cael y llythyr ar ôl 20 diwrnod gwaith, ffoniwch 0300 303 0654.

**Nodyn 7.7 –** Rhaid anfon Ffurflenni IHT421 ac IHT400 at HMRC yn unig.

Ar ôl eu hanfon i HMRC arhoswch 20 diwrnod gwaith cyn cyflwyno'r cais hwn am brofiant. I gael rhagor o fanylion ewch i www.gov.uk/hmrc/inheritance-tax-account

Os yw'r swm ym Mlwch 5 yn fwy na £5,000 bydd yn rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant

**Nodyn 7.8 –** Anfonwch yr IHT207 i GLITEF gyda'ch cais am brofiant. Os yw'r swm ym Mlwch H yn fwy na £5,000 bydd yn rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

# 8. Treth etifeddiant pan fu farw'r unigolyn cyn 31 Rhagfyr 2021

**8.1** Pa ffurflenni IHT wnaethoch chi lenwi?

- ☐ IHT205. **Ewch i gwestiwn 8.2**
- ☐ IHT400 yn unig. **Ewch i gwestiwn 8.3**
- ☐ IHT400 ac IHT421. **Ewch i gwestiwn 8.4**
- ☐ IHT207. **Ewch i gwestiwn 8.5**

**8.2** Darparwch y rhifau o'r ffurflen **IHT205**.

Blwch D (gwerth gros) £

Blwch F (gwerth net) £

**Ewch i Adran 9**

**8.3** Ydych chi wedi cael llythyr gan HMRC gyda'ch cod profiant unigryw?

☐ Do. Y cod yn y llythyr gan HMRC oedd

Y gwerthoedd ar gyfer profiant o'r llythyr gan HMRC

Gwerth gros £

Gwerth net £

**Ewch i Adran 9**

☐ Naddo. **Ewch i gwestiwn 8.4**

**8.4** Darparwch y rhifau o'r **IHT421**

Blwch 3 (gwerth gros) £

Blwch 5 (gwerth net) £

**Ewch i Adran 9**

**8.5** Darparwch y rhifau o'r **IHT207**

Blwch A (gwerth gros) £

Blwch H (gwerth net) £

**Ewch i Adran 9**

**Nodyn 8.2 –** Anfonwch ffurflen IHT205 i GLlTEF gyda'ch cais am brofiant. Dylech gynnwys ffurflen IHT217 os yw'n berthnasol. Os yw'r swm a nodir ym Mlwch F yn fwy na £5,000 bydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

**Nodyn 8.3 –**Fe anfonir y llythyr gan HMRC hyd at 20 diwrnod gwaith ar ôl i chi gyflwyno'r IHT400. Os nad ydych wedi cael y llythyr ar ôl 20 diwrnod gwaith, ffoniwch 0300 303 0654.

**Nodyn 8.4 –** Rhaid anfon ffurflenni IHT421 ac IHT400 i HMRC yn unig.

Ar ôl eu hanfon i HMRC arhoswch 20 diwrnod gwaith cyn cyflwyno'r cais profiant hwn.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/hmrc/inheritance-tax-account

Os yw'r swm a nodir ym Mlwch 5 yn fwy na £5,000 bydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

**Nodyn 8.5 –** Anfonwch ffurflen IHT207 i GLlTEF gyda'ch cais am brofiant. Os yw'r swm a nodir ym Mlwch H yn fwy na £5,000 bydd rhaid i chi dalu ffi gwneud cais am brofiant.

## 9. Datganiad Cyfreithiol

**Mae'r sawl sy'n llofnodi isod yn cadarnhau:**

- Mai'r ewyllys olaf ac unrhyw godisiliau y cyfeirir atynt yn y cais hwn yw ewyllys a thestament olaf yr unigolyn sydd wedi marw
- Y byddant yn casglu'r ystad i gyd
- Y byddant yn cadw manylion llawn (rhestr) yr ystad
- Y byddant yn cadw cofnod llawn o'r ffordd y mae'r ystad wedi cael ei dosbarthu
- Bod yr ystad yn 'ystad eithriedig' a bod domisil yr unigolyn a fu farw yn y DU (os bu i chi ateb 'Oedd' yn 2.8 a 'Do' yn 7.5 neu 8.2)

**Os bydd y Gofrestrfa Brofiant (y llys) yn gofyn i'r sawl sy'n llofnodi isod, byddant yn:**

- Darparu manylion llawn yr ystad a'r ffordd y cafodd ei dosbarthu
- Dychwelyd y Grant Cynrychiolaeth i'r llys

**ac yn deall:**

- Y caiff y cais ei wrthod os na ddarperir yr wybodaeth (os gofynnir)
- Y gellir dwyn achos troseddol am dwyll yn erbyn y sawl sy'n llofnodi isod os penderfynir bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn anwir neu'n anonest yn fwriadol.

**Mae'r sawl sy'n llofnodi isod yn cadarnhau y byddant yn gweinyddu ystad yr unigolyn sydd wedi marw yn unol â'r gyfraith, a bod y cais yn gywir.**

Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am y grant (y rhai hynny a restrir yn Adran A) lofnodi isod.

Enw'r **ceisydd cyntaf**

Llofnod

Enw cwmni'r cynrychiolydd cyfreithiol (os yw'n berthnasol)

Dyddiad llofnodi

Enw'r **ail geisydd**

Llofnod

Dyddiad llofnodi

Enw'r **trydydd ceisydd**

Llofnod

Dyddiad llofnodi

Enw'r **pedwerydd ceisydd**

Llofnod

Dyddiad llofnodi

**Ffôn** 0300 303 0654

**E-bost** ymholiadaucymraeg@justice.gov.uk

## AT DDEFNYDD SWYDDFA YN UNIG

### Sut mae'r ceiswyr yn gymwys i wneud cais.

Ym mha gapasiti y mae'r unigolion sy'n gwneud cais yn gallu gwneud cais?

☐ Yr ysgutor(ion) a enwyd yn ewyllys/codisil yr unigolyn sydd wedi marw

☐ Yr atwrnai/atwrneiod sy'n gweithredu ar ran yr ysgutor(ion) a enwyd yn ewyllys/codisil yr unigolyn sydd wedi marw

☐ Y buddiolwr/buddiolwyr a enwyd yn ewyllys/codisil yr unigolyn sydd wedi marw

☐ Yr atwrnai/atwrneiod sy'n gweithredu ar ran y buddiolwr/buddiolwyr a enwyd yn ewyllys/codisil yr unigolyn sydd wedi marw

☐ Arall (Nodwch y rheswm dros wneud cais yn y blwch isod)